OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 2914 (Cy.211)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*18 Hydref 2005*
	yn unol â rheoliad
Yn dod i rym - -	*1(1)*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 19(2) a (3), 20(2) a (3), 21(3), 23, 210(7) a 214 (1) a (2) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), yn gwneud y rheoliadau canlynol—

RHAN 1

Cyflwyniad

Teitl, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 31 Hydref 2005, ar wahân i baragraff (2) o reoliad 2, a rheoliad 38 ac Atodlen 6, a ddeuant i rym ar 1 Ionawr 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Dirymiadau, arbedion a diwygiadau

2.—(1) Dirymir drwy hyn Reoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Trawsnewid i Fframwaith Newydd) 1998(**2**).

(2) Dirymir Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cymru) 1999(**3**) yn effeithiol o 1 Ionawr 2006, ac eithrio'r darpariaethau canlynol sy'n parhau mewn grym yn achos pob ysgol a gynhelir hyd nes y gwneir offeryn llywodraethu newydd i'r ysgol yn unol â rheoliad 33—

Rheoliad 1 ar wahân i'r geiriau "and new schools" ym mharagraff (3);

Rheoliad 2(1) ar wahân i'r diffiniadau o "the First Transitional Regulations", "new school" "School Organisation Regulations" a "the Second Transitional Regulations";

Rheoliad 2(2) ar wahân i'r diffiniadau o "temporary governing body" a "temporary governors";

(**1**) 2002 p..32.
(**2**) O.S. 1998/2763, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/362, 1999/2242 (Cy.2), 2001/2263 (Cy.164).
(**3**) O.S. 1999/2242 (Cy. 2) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/2263 (Cy.164) .

Rheoliad 3 ar wahân i'r geiriau "or temporary governing body (however constituted)" ac "or (as the case may be) new school";

Rheoliad 4 ar wahân i'r geiriau mewn cromfachau, ac yn eu lle hwy rhoddir y geiriau "in accordance with the 1998 Act";

Rheoliad 5(1) (a) ar wahân i'r geiriau "or will maintain" ac "or a new school"; ac ar ôl y geiriau "for which an instrument of government has been made" ychwanegir y geiriau "in accordance with the 1998 Act";

Rheoliad 5(2) (i), (iii) a (iv), ar wahân i'r geiriau "and (b)" a'r geiriau "or, in the case of a new school which has not opened, the diocesan authority which will be the appropriate diocesan authority when the school opens";

Rheoliad 6(1) ac Atodlen 1;

Rheoliadau 9 i 12 ac Atodlenni 2 i 4;

Rheoliad 15 ar wahân i'r geiriau "Subject to Part VIII (transitional provisions), Schedule 6 sets", ac yn eu lle hwy rhoddir "Paragraphs (12) to (16) of Schedule 6 to these Regulations and Schedule 5 to the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005 set", a pharagraffau (12) i (16) o Atodlen 6;

Rheoliadau 16 a Rheoliadau 17;

Rheoliad 18 ac eithrio ym mharagraff (1) y geiriau "and to Part VIII (transitional provisions)"; a

Rheoliadau 19 ac 20.

(3) Diwygir paragraff (1) o reoliad 31 o Reoliadau Addysg (Ysgolion Newydd) (Cymru) 1999(**4**), drwy roi'r geiriau "Part 5 of the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005" yn lle'r geiriau "Schedule 12 to the 1998 Act".

Dehongli

3.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

dehonglir "athro neu athrawes ysgol" ("*school teacher*") yn unol ag adran 122 o Ddeddf 2002;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**5**);

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**6**);

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul neu ddiwrnod sy'n ŵyl banc o fewn ystyr "bank holiday" yn Neddf Bancio a Deliadau Ariannol 1971(**7**).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn—

(a) at y corff llywodraethu neu at gorff llywodraethu ysgol yn gyfeiriad at gorff llywodraethu unrhyw ysgol a gynhelir y mae'r ddarpariaeth yn berthnasol iddi;

(b) at lywodraethwr yn gyfeiriad at aelod o gorff llywodraethu unrhyw ysgol y mae'r ddarpariaeth yn berthnasol iddi;

(c) at yr awdurdod addysg lleol yn gyfeiriad at yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr ysgol.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn—

(**4**) O.S. 1999/2243; diwygir y rheoliad hwn hefyd gan reoliad 8 yn Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol etc (Cymru) 2005, O.S. 2005/2913 (Cy. 210).
(**5**) 1996 p.56.
(**6**) 1998 p.31.
(**7**) 1971 p.80.

(a) at reoliad, Rhan neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad, Rhan neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn;

(b) at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheoliad neu'r Atodlen y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddynt;

(c) at is-baragraff â rhif yn gyfeiriad at yr is-baragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y paragraff y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddo.

RHAN 2

Categorïau Llywodraethwyr

Rhiant-lywodraethwyr

4.—(1) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "rhiant-lywodraethwr" ("*parent governor*") yw—

(a) person a etholir yn unol â pharagraffau 4 i 9 o Atodlen 1 yn llywodraethwr gan rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol ac sydd ei hun yn rhiant o'r fath pan gaiff ei ethol, neu

(b) person a benodir yn rhiant-lywodraethwr yn unol â pharagraffau 10 i 12 o Atodlen 1.

(2) Anghymhwysir person rhag bod yn rhiant-lywodraethwr yn unol â pharagraffau 10 i 12 o Atodlen 1 os yw—

(a) yn aelod etholedig o'r awdurdod addysg lleol;

(b) yn cael ei gyflogi gan yr awdurdod addysg lleol mewn cysylltiad â'i swyddogaethau fel awdurdod addysg lleol; neu

(c) yn cael ei dalu i weithio yn yr ysgol am fwy na 500 awr mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis yn dechrau ar 1 Awst ac yn gorffen ar 31 Gorffennaf,

os nad yw'n rhiant i ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol.

(3) Nid anghymhwysir person rhag parhau i fod yn rhiant-lywodraethwr pan beidia â bod yn rhiant disgybl cofrestredig yn yr ysgol neu pan beidia â bodloni unrhyw rai o'r gofynion a nodir ym mharagraffau 11 a 12 o Atodlen 1 (yn ôl fel y digwydd) onis anghymhwysir fel arall o dan y Rheoliadau hyn.

(4) Mae Atodlen 1 yn gymwys i ethol a phenodi rhiant-lywodraethwyr.

Athro-lywodraethwyr

5.—(1) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "athro-lywodraethwr" ("*teacher governor*") yw person—

(a) a etholir yn unol ag Atodlen 2 yn llywodraethwr gan athrawon ysgol yn yr ysgol, a

(b) sydd ei hun yn athro neu athrawes ysgol o'r fath pan etholir ef neu hi.

(2) Pan fydd yn gorffen gweithio yn yr ysgol anghymhwysir athro-lywodraethwr rhag parhau i ddal swydd fel llywodraethwr o'r fath.

Staff-lywodraethwyr

6.—(1) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "staff-lywodraethwr" ("*staff governor*") yw person—

(a) a etholir yn unol ag Atodlen 2 yn llywodraethwr gan bersonau a gyflogir i weithio yn yr ysgol ond nid fel athrawon ysgol, a

(b) sydd ei hun yn berson a gyflogir yn y cyfryw fodd pan etholir ef;

ac at y diben hwn, ystyr "a gyflogir" ("*employed*") yw a gyflogir o dan gontract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau.

(2) Pan fo offeryn llywodraethu ysgol feithrin a gynhelir yn gwneud darpariaeth yn unol â rheoliad 14(3), ystyr "staff-lywodraethwr" ("*staff governor*") yw person—

(a) a etholir yn unol ag Atodlen 2 yn llywodraethwr gan bersonau a gyflogir i weithio yn yr ysgol, a

(b) sydd ei hun yn berson a gyflogir yn y cyfryw fodd pan etholir ef;

ac at y diben hwn, ystyr "a gyflogir" ("*employed*") yw a gyflogir o dan gontract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau.

(3) Pan fydd yn gorffen gweithio yn yr ysgol anghymhwysir staff-lywodraethwr ysgol rhag parhau i ddal swydd fel llywodraethwr o'r fath.

Llywodraethwyr AALl

7.—(1) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "llywodraethwr AALl" ("*LEA governor*") yw person a benodir yn llywodraethwr gan yr awdurdod addysg lleol.

(2) Anghymhwysir person rhag cael ei benodi na pharhau i ddal swydd fel llywodraethwr AALl ysgol os yw'n gymwys i fod yn athro- lywodraethwr neu'n staff-lywodraethwr i'r ysgol.

Llywodraethwyr cymunedol

8.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "llywodraethwr cymunedol" ("*community governor*") yw person a benodir yn llywodraethwr gan y corff llywodraethu ac sydd—

(a) yn berson sy'n byw neu'n gweithio yn y gymuned a wasanaethir gan yr ysgol, neu

(b) yn berson sydd, ym marn y corff llywodraethu, yn ymrwymedig i lywodraeth dda a llwyddiant yr ysgol;.

ystyr "llywodraethwr cymunedol ychwanegol" ("*additional community governor*") yw llywodraethwr a benodir yn unol â rheoliad 20.

(2) Anghymhwysir person rhag cael ei benodi na pharhau i ddal swydd fel llywodraethwr cymunedol ysgol os yw—

(a) yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol;

(b) yn gymwys i fod yn athro-lywodraethwr neu'n staff-lywodraethwr i'r ysgol.

(3) Anghymhwysir person rhag cael ei benodi'n llywodraethwr cymunedol ysgol os yw'n aelod etholedig o'r awdurdod addysg lleol.

(4) Nid yw paragraffau (2) a (3) yn gymwys yn achos llywodraethwr cymunedol ychwanegol.

Llywodraethwyr sefydledig

9.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "llywodraethwr sefydledig" ("*foundation governor*") yw person a benodir yn llywodraethwr ac eithrio gan yr awdurdod addysg lleol ac—

(a) pan fo gan yr ysgol gymeriad crefyddol arbennig(**8**), a benodir at ddiben sicrhau y diogelir ac y datblygir y cymeriad hwnnw,

(b) pan fo ymddiriedolaeth yn ymwneud â'r ysgol, a benodir at ddiben sicrhau y rhedir yr ysgol yn unol â'r ymddiriedolaeth honno, neu

(**8**) Fel y dynodir drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 69(3) o Ddeddf 1998. *Gweler* Gorchymyn Dynodi Ysgolion sydd â Chymeriad Crefyddol (Cymru) 1999, O.S. 1999/1814 a Gorchymyn Dynodi Ysgolion sydd â Chymeriad Crefyddol a Diwygiadau (Cymru) 2004, O.S. 2004/1734 (Cy. 177).

(c) pan nad oes gan yr ysgol gymeriad crefyddol a phan nad oes ymddiriedolaeth yn ymwneud â hi, a benodir yn llywodraethwr sefydledig i'r ysgol;

ystyr "llywodraethwr sefydledig *ex officio*" ("*ex officio foundation governor*") yw llywodraethwr sefydledig sy'n ddeiliad swydd y mae ganddo hawl i fod yn llywodraethwr sefydledig yn rhinwedd y swydd honno;

ystyr "dirprwy lywodraethwr" ("*substitute governor*") yw llywodraethwr sefydledig a benodir i weithredu yn lle llywodraethwr sefydledig *ex officio*—

(a) sy'n anfodlon neu'n methu â gweithredu fel llywodraethwr,

(b) sydd wedi ei ddiswyddo fel llywodraethwr o dan reoliad 27(2), neu

(c) os yw'r swydd sy'n rhoi bod i swydd llywodraethwr o'r fath yn wag.

(2) Anghymhwysir llywodraethwr sefydledig *ex officio*, pan beidia â dal y swydd y mae ei swydd fel llywodraethwr yn deillio ohoni, rhag parhau i ddal swydd fel llywodraethwr o'r fath.

Llywodraethwyr partneriaeth

10.—(1) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "llywodraethwr partneriaeth" ("*partnership governor*") yw person a enwebir yn llywodraethwr partneriaeth ac a benodir yn llywodraethwr o'r fath yn unol ag Atodlen 3.

(2) Anghymhwysir person rhag cael ei enwebu na'i benodi'n llywodraethwr partneriaeth ysgol os yw—

(a) yn rhiant disgybl cofrestredig yn yr ysgol ;

(b) yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol;

(c) yn gymwys i fod yn athro-lywodraethwr neu staff-lywodraethwr i'r ysgol;

(ch) yn aelod etholedig o'r awdurdod addysg lleol; neu

(d) yn cael ei gyflogi gan yr awdurdod addysg lleol mewn perthynas â'i swyddogaethau fel awdurdod addysg lleol.

Noddwr-lywodraethwyr

11. Yn y Rheoliadau hyn ystyr "noddwr-lywodraethwr" ("*sponsor governor*") yw person a enwebir yn noddwr-lywodraethwr ac a benodir yn llywodraethwr o'r fath gan y corff llywodraethu yn unol ag Atodlen 4.

Llywodraethwyr cynrychioliadol

12. Yn y Rheoliadau hyn ystyr "llywodraethwr cynrychioliadol" ("*representative governor*") yw person a benodir yn llywodraethwr o'r fath yn unol â pharagraffau (4) neu (5) o reoliad 15.

RHAN 3

CYFANSODDIAD CYRFF LLYWODRAETHU

Ysgolion Cymunedol

13.—(1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol gymunedol gynnwys y canlynol—

(a) y pennaeth, onid yw'n ymddiswyddo yn unol â rheoliad 26(1);